

## Beth yw Technoleg Gynorthwyol

Technoleg Gynorthwyol yw **unrhyw ddyfais neu feddalwedd sy'n eich helpu** i astudio.

Nid bwriad Technoleg Gynorthwyol yw rhoi mantais i fyfyrwr dros fyfyrwyr eraill ond **cynnig tegwch i bawb.**

Yn gyntaf oll, nodyn byr am **fynegeio**:

### **Mynegeio**

Mae creu mynegai yn ffordd o drefnu recordiadau o ddarlithoedd, cyfarfodydd neu seminarau. Maen nhw **fel nodau tudalen** yn eich helpu i lenwi bylchau yn eich nodiadau trwy wrando ar y recordiad.

Mae gan wahanol ddyfeisiau wahanol ddulliau o fynegeio.

